

**Ymateb Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i  
ymgyngoriad Llywodraeth y DU ar  
Cyrff Rhagnodedig: Gofynion Adrodd Blynyddol ar Chwythu'r Chwiban**

1. Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, mae gennyf ddwy rôl. Y gyntaf yw ymchwilio i gwynion a wneir gan y cyhoedd sy'n credu eu bod wedi dioddef caledi neu anghyfiawnder trwy gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth ar ran corff yn fy awdurdodaeth. Yr ail yw ystyried cwynion sy'n honni bod aelodau awdurdodau lleol wedi torri eu Cod Ymddygiad. Rwyf yn ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar ofynion adrodd ar gyfer unigolion sy'n cael eu cyfrif fel 'unigolion rhagnodedig' yn rhinwedd yr ail rôl yn bennaf. Rwyf am ganolbwyntio ar un agwedd, a honno yw'r ffaith bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi'i gynnwys ar y Rhestr o Gyrff Rhagnodedig.
2. Mae'r 'Rhestr o unigolion a chyrrff rhagnodedig', a gyhoeddwyd fis Chwefror 2013, yn amlinellu'r canlynol:

***“Y Comisiynydd Lleol yng Nghymru  
yn glŷn â thorri cod ymddygiad awdurdod lleol”***

ac mae wedyn yn rhoi manylion am swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynghyd â'r cyfeiriad a'r manylion cyswllt perthnasol.

Cafodd swyddfa'r Comisiynydd Lleol yng Nghymru ei diddymu yn 2006. Gwnaeth Deddf Comisiynydd Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 ddarpariaeth i'r Ombwdsmon i ymchwilio i faterion yn ymwneud ag achosion posibl o dorri cod ymddygiad awdurdod lleol a arferai gael eu hystyried gan y Comisiynydd Lleol yng Nghymru.

3. Yn fy marn i mae'n gamarweiniol i'r cyhoedd bod Comisiynydd Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cael ei gynnwys ar y rhestr o unigolion rhagnodedig:
  - (a) **Cod Ymddygiad –**
    - Wrth ystyried cwynion yn erbyn aelodau awdurdodau lleol, gallaf ystyried achosion yn unig lle mae honiad ysgrifenedig yn cael ei wneud i mi gan unrhyw unigolyn bod unigolyn wedi methu â chydymffurfio â Chod Ymddygiad yr awdurdod.

- Yn dilyn fy ymchwiliad i unrhyw gŵyn, gallaf gyfeirio'r aelod a gyhuddwyd at Banel Dyfarnu Cymru neu at eu pwyllgor safonau lleol a all, os gellir profi bod y cod wedi'i dorri, wahardd neu anghymhwyso'r aelod rhag dal swydd. O gofio'r cosbau difrifol y gellir eu gosod ar aelod, rhaid i achwynwyr lofnodi datganiad eu bod wedi deall a'u bod yn derbyn y bydd manylion eu cwyn yn cael eu trosglwyddo i'r aelod maent yn cwyno amdano ac y gall fod yn wybodaeth gyhoeddus. Rhaid iddynt hefyd gadarnhau eu bod yn barod i roi tystiolaeth lafar yn gyhoeddus i ategu eu cwyn gerbron pwyllgor safonau'r awdurdod neu unrhyw dribiwnlys achos a all gael ei benodi i ystyried unrhyw adroddiad y gall yr Ombwdsmon ei gyhoeddi os bydd yn penderfynu ymchwilio i'w cwyn.
- Hefyd, ni allaf weithredu yn yr un ffordd â rheolydd. Nid yw'n ddigon bod rhywun yn mynegi pryder wrthyf; pan fyddant yn cyflwyno eu cwyn rhaid iddynt gynnwys tystiolaeth sy'n dangos sut maent yn credu bod yr aelod dan sylw wedi torri'r Cod Ymddygiad.

(b) **Cwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus** – hoffwn gadarnhau hefyd nad yw chwythu'r chwiban yn dod o fewn fy nghylch gwaith o ran ystyried cwynion am wasanaethau a ddarperir gan gyrff cyhoeddus. Yn benodol, ni allaf ystyried materion staffio (heblaw am weithdrefnau recriwtio neu benodi). Hefyd, rhaid i unrhyw unigolyn sy'n cwyno wrthyf fod wedi eu heffeithio'n bersonol gan y mater maent yn cwyno yn ei gylch.

4. Nid wyf o'r farn bod unrhyw rai o fy swyddogaethau, gan gynnwys rhai sy'n gysylltiedig â'r cod ymddygiad ar gyfer aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru, yn dod o fewn y diffiniad o chwythu'r chwiban. Rwyf yn cynnig felly, y dylai Llywodraeth y DU nid yn unig ddileu unrhyw gyfeiriad at swyddfa'r Comisiynydd Lleol yng Nghymru, sydd bellach wedi'i diddymu, ond hefyd unrhyw gyfeiriad at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o'r rhestr o unigolion rhagnodedig.

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**  
**Medi 2014**

\*\*\*\*\*